# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## PENNOD 3

SWYDDOGAETHAU ATODOL

*Darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn mathau penodol o ysgol neu sefydliad arall*

### 51 Dyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir

(1) Rhaid i awdurdod lleol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon mewn perthynas â phlentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac a ddylai gael ei addysgu mewn ysgol sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir oni bai bod unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau ym mharagraffau (a) i (c) o is-adran (2) yn gymwys.

(2) Yr amgylchiadau yw—

(a) bod addysgu'r plentyn mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yn anghydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill;

(b) bod addysgu'r plentyn mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yn briodol er lles pennaf y plentyn ac yn gydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill;

(c) bod rhiant y plentyn yn dymuno i'r plentyn gael ei addysgu mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir.

(3) Ni chaiff awdurdod lleol ddibynnu ar yr eithriad yn is-adran (2)(a) oni bai nad oes unrhyw gamau rhesymol y gallai'r awdurdod eu cymryd i atal yr anghydnawsedd.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/08/2023.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Adran 51 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 26 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(4) Pan fo rhiant plentyn yn dymuno i'w blentyn gael ei addysgu mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir, nid yw is-adran (2)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir.

(5) Nid yw is-adran (1) yn atal plentyn rhag cael ei addysgu mewn—

(a) ysgol annibynnol, neu

(b) ysgol a gymeradwyir o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56),

os telir y gost ac eithrio gan awdurdod lleol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 51 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**I2** A. 51 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 3**, 4 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2(3))

**I3** A. 51 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 6**, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2(4)(5))

**I4** A. 51 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1245, **erglau. 3(i)**, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4))

**I5** A. 51 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/892, **ergl. 3(i)** (ynghyd ag erglau. 2, 4-18)

**I6** A. 51 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/895, **erglau. 3(i)**, 4

**I7** A. 51 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/894, **ergl. 3(i)**

**I8** A. 51 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/893, **ergl. 4** (ynghyd ag ergl. 1(2))

**I9** A. 51 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/898, **erglau. 2(i)**, 3

**I10** A. 51 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1243, **ergl. 3(i)** (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 2** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 2** ac (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 2**)

**I11** A. 51 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1244, **ergl. 3(i)** (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 3** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 3** ac (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 3**)

**I12** A. 51 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/891, **ergl. 3(i)** (ynghyd ag erglau. 4-25) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 4**)

**I13** A. 51 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/896, **ergl. 3(i)** (ynghyd ag erglau. 4-22) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan O.S. 2023/932,**ergl. 5**

**I14** A. 51 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/897, **ergl. 3(i)** (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan O.S. 2023/932,**ergl. 6**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/08/2023.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Adran 51 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 26 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.